# Awgrymiadau Aneirin Karadog...

## ...ar gyfer bod yn Fardd o Fri

**1. Rhywbeth i'w ddweud** – meddyliwch am yr hyn rydych yn ceisio ei gyfleu wrth ysgrifennu. Mae cerdd sy'n adrodd neges yn gallu bod yn rhywbeth pwerus sy'n procio'r meddwl, a hyd yn oed yn gallu cyflawni newid er gwell, neu gyffwrdd yng nghalon rhywun.

**2.** Cyfleu'r hyn rydych yn ei weld – sut gallwch chi gyfleu'r syniad sydd wedi'ch ysbrydoli? Y ffordd fwyaf effeithiol yw paentio darluniau gyda geiriau. Trwy ddefnyddio cyffelybiaethau, trosiadau a chwarae gyda geiriau, bydd eich cerdd yn llwyddo. A allwch chi feddwl am gymhariaeth effeithiol ar gyfer y pwnc rydych yn ysgrifennu amdano?

**3. Y sain – sut mae'n swnio?** – dyma lle mae'r gerddoriaeth yn eich barddoniaeth yn dod i'r amlwg – defnyddiwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu am gynghanedd i roi sain arbennig i'ch cerddi.

POSTCARD

### Cynghanedd: Crewch eich Kung-fu Cymraeg eich hun

Cofiwch mai rhywbeth i'r glust yw'r gynghanedd – gallwn ei ddeall trwy wrando! Felly gwrandewch ar eich llinellau wrth i chi ysgrifennu.

Ydyn nhw'n canu?
Ydych chi'n clywed miwsig ynddyn nhw?

**Llusg:** Mae'r llinellau hyn yn cynnwys odl fewnol. Mae diwedd hanner cyntaf y llinell yn odli gyda'r sill olaf ond un yng ngair olaf y llinell.

To begin / at the beginning
Time to face / the chaser
Be brave / like a raven!
Nunlle gwell / na Llanelli
Mae gwên / yn rhoi llawenydd

**Sain:**

Mae'r gynghanedd hon yn cyfuno odli a chyflythrennu neu gyseinedd.

Â phoer y lloer dros y lle

yaba-daba-dw!

Blodyn melyn i mam


Dros Gymru rhaid canu cân

**Llusg:**

Os caled yw'r dorth: morthwyl!

Y castell yn y Gelli

Sefyll yn dal wna Joe Allen




## Geiriau Cymraeg Defnyddiol ym Myd Rhyfeddol Cynghanedd

Cynghanedd = ffurf hynafol ar gelfyddyd farddonol mewn llinellau o farddoniaeth, sy'n golygu 'harmoni' yn llythrennol

Cerdd Dafod = 'Tongue Music', ffordd arall o ddweud 'cynghanedd'.

Awen = Ysbrydoliaeth

Pastwn = Ffon farddol sy'n cael ei defnyddio i gadw curiad

Llusg = Fel 'llusgo'

Sain = Y sŵn

Acen = Pwyslais y gair. Dyma'r curiad o fewn yr odl sy'n dod o'r gair a'i bwyslais a'i ffurfiau amrywiol.

Cytsain/Cytseiniol = 'Consonant' / 'Consonantal'

Odl = 'Rhyme'

Barddoni = creu barddoniaeth – berf sy'n cwmpasu popeth yn ymwneud â barddoniaeth: o ysgrifennu, darllen, dysgu, perfformio a gwerthfawrogi i hel sibrydion!